Comisiwn Archwilio
Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol
Estyn
Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi
Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Archwiliad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid Lloegr a Chymru

Adroddiad ar: Dîm Troseddau Ieuenctid Conwy-Sir Ddinbych

ISBN 1 84473 164 2

2004

Rhagair

Bydd y rhaglen archwilio hon yn cynnwys yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr a Chymru dros gyfnod o bump i chwe blynedd. Yn yr adroddiad hwn, sef y cyfnod cyntaf, bydd y pwyslais ar sefydlu meincnodau a lledaenu arfer da. Bydd y cyfnodau dilynol yn canolbwyntio ar archwilio data a gafwyd o archwiliadau sydd wedi'u teilwra'n unigol i bob Tîm Troseddau Ieuenctid a'r hyn a gyflawnir yn ôl y targedau a osodir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gwella perfformiad a sicrhau cysondeb ar draws y 155 o Dimau Troseddau Ieuenctid.

Dyma'r adroddiad archwiliad cyntaf i'w gyhoeddi ar Dîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru ac yn hynny o beth mae iddo gryn arwyddocâd. Mae Tîm Troseddau Ieuenctid Conwy-Sir Ddinbych yn gweithio i ddau o awdurdod lleol mewn dwy ardal, y ddwy â gwahanol ddulliau o weithredu a disgwyliadau. Er bod nifer o newidiadau trosiannol wedi bod, canfuwyd bod y Tîm Troseddau Ieuenctid a'i bartneriaid yn darparu gwahanol wasanaethau ac adnoddau i blant a phobl ifanc leol, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr ar sail wirfoddol a statudol.

Gwelwyd bod sawl enghraifft o arfer da yn cynnwys:

- gweithio gyda phlant a phobl ifanc oedd mewn risg o droseddu
- ymyriadau effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn unol â safonau cenedlaethol
- ansawdd y gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd dan orchmynion cadw a hyfforddiant
- ymwneud â rhieni/gofalwyr a chynnig cefnogaeth iddynt.

Roedd yr holl elfennau hyn yn cyfrannu at gyswllt cadarnhaol â rhaglenni lleol a'r parch uchel o fewn yr ardal tuag at y Tîm Troseddau Ieuenctid.

Ond fe welsom hefyd bod lle i wella. Er bod rhai o'r gwelliannau'n ymwneud ag arferion gwaith o fewn y Tîm Troseddau Ieuenctid, mae'r prif welliannau'n ymwneud â threfniadau rheoli a phartneriaeth, meysydd oedd angen sylw er mwyn sicrhau bod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gallu parhau ar hyn y llwybr cadarnhaol y mae eisoes yn ei droedio. Roedd y meysydd oedd angen eu gwella yn cynnwys yr angen am gyfeiriad strategol amgenach gan y Grŵp Llywio a chynrychiolaeth briodol gan bartneriaid statudol. Gwelsom hefyd fod anghysondebau o ran cyhoeddi rhybuddion terfynol. Dylid rhoi sylw i hyn, a hefyd i'r gwasanaeth a gynigir i rai sy'n dioddef yn sgil trais a gyflawnir gan blant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion ar gyfer partneriaid unigol a Rheolwr Strategol y Tîm Troseddau Ieuenctid. Dylai hyn gyfrannu tuag at welliannau o ran perfformiad gan barhau i hybu'n gadarnhaol y Tîm Troseddau Ieuenctid yn y gymuned.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi

Cynnwys

		Page
	Cydnabyddiaeth	3
	Geirfa	4
	Cyflwyniad	5
	Prif gasgliadau	6
	Trosolwg	9
1.	TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH	11
2.	PLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU	169
3.	PLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU	23
4.	GWEITHIO GYDA RHIENI/GOFALWYR	30
5.	GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR	34
	Archwiliad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid	37
	Trefniadau'r Archwiliad	39
	Dull sgorio	41
	Camau nesaf	42

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i reolwr a staff Tîm Troseddau Ieuenctid Conwy-Sir Ddinbych, aelodau'r Grŵp Llywio, y Prif Weithredwr, Swyddogion y ddwy sir, uwch reolwyr asiantaethau partner a phobl gysylltiedig eraill am eu help i sicrhau bod yr archwiliad wedi'i gynnal yn effeithiol ac am rannu eu gwybodaeth a'u profiad gyda'r tîm archwilio.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Nia Elis-Williams Rheolwr Strategol y Tîm Troseddau Ieuenctid, Sioned Edwards Swyddog Gweinyddol, Paul Gregson Uwch Ymarferydd, Lesley Kew Rheolwraig Weithredol a Mike Denman Cadeirydd y Grŵp Llywio am eu hymrwymiad i'r archwiliad.

Arolygydd yn Arwain	*Rose Burgess Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi*
Arolygwyr	*Maddie Blackburn Comisiwn Gofal Iechyd, Kam Kaur Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Steve Glass Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi, Linda Howells Estyn, Gerard Kerslake Estyn, Yvette King Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol, John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Ian Macfadyen Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi*
Staff Cefnogi	*Grace Dickin, Rachel Dwyer, Junior Rhone*
Rheolwraig y Rhaglen	*Liz Calderbank Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi*
Aseswr Ardal	*Paul Gregson*

Geirfa

ADHD	Anhwylder Gorfywiogwrydd Diffyg Canolbwyntio
ASSET	Dull asesu wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion
CDRP	Partneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn
CSCI	Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol
DTO	Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant
EOTASS	Gwasanaethau Addysg i Blant na Allant fynd i'r Ysgol
Estyn	Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
ETE	Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg
HMIC	Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi
ISSP	Rhaglen Goruchwylio a Gwyliadwraeth Dwys
NACRO	Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofal ac Ailgartrefu Troseddwyr
Safonau Cenedlaethol	Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
NCH Cymru	Cartrefi Cenedlaethol Plant Cymru
NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
OCN	Rhwydwaith Coleg Agored
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg
PSR	Adroddiad Cyn-Dedfryd
PRU	Uned Cyfeirio Disgyblion
SDQ	Holiadur Cryfderau ac Anawsterau dull sgrinio iechyd meddwl/emosiynol
SMART	Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amserol
SSIW	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
YOT	Tîm Troseddau Ieuenctid
YPSMS	Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau i Bobl Ifanc

Cyflwyniad

Yn y tair blynedd diwethaf, ers gweithredu gwelliannau cyfiawnder ieuenctid cenedlaethol yn Ebrill 2000, bu newid sylweddol. Mae YOTs wedi'u sefydlu drwy Loegr a Chymru. Mae gorchmynion ac ymyriadau newydd wedi'u cyflwyno, system asesu gyffredin wedi'i datblygu a mwy o bwyslais wedi'i roi ar wahanol ddulliau o weithredu, gan gynnwys gwaith ataliol, cyfiawnder adferol ac anghenion dioddefwyr. Mae llawer wedi'i gyflawni.

Dyma'r rhaglen archwiliad lawn gyntaf i archwilio'r maes newydd hwn o waith. Rydym yn derbyn y bydd YOTs yn amrywio o ran eu datblygiad, gan adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol. Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r fethodoleg a dull sgorio'r archwiliad wedi'u cynllunio i gymryd y gwahanol gyfnodau datblygu hyn i ystyriaeth.

Mae pwyslais wedi'i roi ar ddau faes craidd:

- trefniadau rheoli a phartneriaeth, yn cynnwys rôl a swyddogaeth y bwrdd lleol
- gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Mae'r meysydd hyn yn hanfodol i sicrhau perfformiad boddhaol a chynaladwy. Meysydd eraill yr edrychwyd arnynt gan y tîm archwilio oedd atal troseddu, gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithio gyda dioddefwyr.

Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn dim ond ychydig o YOTs a ddisgwylir fydd yn perfformio'n foddhaol ar draws pob un o'r pum maes a archwilir, ond disgwylir y bydd gan y mwyafrif drefniadau rheoli ac arferion gwaith cadarn gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Prif Gasgliadau

Trefniadau rheoli a phartneriaeth

- Er bod y Grŵp Llywio'n cyfarfod yn rheolaidd, nid oedd pob partner statudol wedi'i gynrychioli ar lefel strategol ac felly ni chafwyd y weledigaeth a'r arweiniad angenrheidiol.
- Nid oedd Byrddau Iechyd Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn cyfrannu at reolaeth strategol y YOT.
- Nid oedd un dull cyffredin rhwng y ddau awdurdod lleol o ran addysg y plant a'r bobl ifanc yr oedd y YOT yn gweithio â hwy.
- Roedd cysylltiad da rhwng y YOT a rhaglenni lleol ac roedd asiantaethau partner yn fawr eu canmoliaeth o waith y YOT a Rheolwr Strategol YOT.
- Mae angen rhoi sylw pellach i oruchwylio a gwerthuso staff yn ogystal â hyfforddiant, yn arbennig mewn perthynas â diogelu plant, amrywiaeth, asesu a rheoli risg.

Plant a phobl ifanc mewn risg o droseddu

- Roedd mecanwaith ar gyfer adnabod plant a phobl ifanc mewn risg o droseddu, a gâi eu hasesu trwy ddull ASSET.
- Roedd plant a phobl ifanc yn cael cynnig nifer o wahanol wasanaethau ataliol.
- Nid oedd gan y YOT hyd yma, ddull ar gyfer mesur effaith y gwaith hwn.

Plant a phobl ifanc sy'n troseddu

- Cwblhawyd asesiadau ar blant a phobl ifanc oedd wedi troseddu, yn unol â safonau cenedlaethol.
- Roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi derbyn Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant (DTOs) yn gymeradwy.
- Roedd gorchmynion wedi'u gorfodi'n briodol.
- Nid oedd rhybuddion terfynol yn cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau perthnasol y Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Nid oedd y gwahanol ymyriadau ar gael yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion amrywiol y gymuned.
- Roedd angen mwy o sylw i waith yn sgil y trosedd.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr

- Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn modd sensitif yn y gwahanol ymyriadau, yn seiliedig ar ganllawiau arferion effeithiol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Roeddent yn fodlon gyda'r ffordd yr oeddent yn ymwneud â'r gwaith o oruchwylio'u plant.

Gweithio gyda dioddefwyr

- Roedd trefniadau wedi'u gwneud i fwrw ymlaen â'r gwaith gyda throseddwyr, er hynny nid oedd y prosesau cyswllt a chyfeirio'n gweithio'n briodol.
- Ychydig o ymwneud oedd gan ddioddefwyr yn y panel gorchymyn cyfeirio.
- Dylid cynnal arolygon dioddefwyr yn rheolaidd mewn modd trefnus.

Asesiad cyffredinol

Er bod y gwaith gyda dioddefwyr angen ei ddatblygu ymhellach, sylwyd ar nifer o gryfderau yn y gwaith a wnaed gyda phlant a phobl ifanc mewn risg o droseddu, y rhai oedd wedi troseddu a'u rhieni/gofalwyr. Disgrifiwyd y YOT fel tîm oedd yn gweithio'n dda ac roedd yn amlwg bod gan ei bartneriaid barch uchel tuag at Reolwraig Strategol YOT.

Roedd nifer o newidiadau sylweddol ar lefel rheoli strategol wedi digwydd i'r YOT ac roedd hyn wedi effeithio ar ei berfformiad. Er hynny, mae'r Rheolwr Strategol a'r staff presennol i'w canmol am yr arferion da oedd wedi'u datblygu a'u cynnal.

Roeddem yn bryderus iawn am y modd roedd y Grŵp Llywio'n gweithredu, oedd, yn ein barn ni, yn methu â darparu cyfeiriad a chanllawiau angenrheidiol. O ganlyniad aseswyd bod perfformiad cyffredinol YOT Conwy-Sir Ddinbych yn **anfoddhaol ag angen gwella.**

Argymhellion

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod:

- cynllun gweithredu'n cael ei baratoi i roi sylw i'r argymhellion canlynol a'i fod yn cael ei anfon ymlaen at yr arolygwr sy'n arwain o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn
- y Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o bob asiantaeth bartner strategol ac yn darparu cyfeiriad strategol angenrheidiol i'r YOT.

Dylai Rheolwr Strategol YOT sicrhau bod:

- staff yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso yn unol â chanllawiau lleol
- strategaeth yn cael ei datblygu i roi sylw i anghenion hyfforddi staff
- ymyriadau, ar sail unigol a drwy waith grŵp, yn cael eu datblygu er mwyn rhoi sylw i ymddygiad tramgwyddus
- trefniadau ar gyfer gweithredu gorchmynion cyfeirio'n cael eu hadolygu a bod canllawiau'r Swyddfa Gartref/ Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu gweithredu
- gwaith gyda dioddefwyr yn unol â chanllawiau arferion effeithiol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Dylai Awdurdodau Addysg Conwy a Sir Ddinbych sicrhau bod:

- cysondeb o ran y dull gweithredu a'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc a gyfeirir gan YOT.

Dylai'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych sicrhau bod:

- trefniadau yn eu lle ar gyfer asesu anghenion iechyd plant a phobl ifanc a gyfeirir gan YOT a bod yr anghenion hynny'n cael eu cwrdd.

Dylai Heddlu Gogledd Cymru sicrhau bod:

- ei bolisi rhybudd terfynol a'r modd y caiff ei weithredu yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Trosolwg

- Mae Conwy a Sir Ddinbych yn ddwy sir fawr ar arfordir gogleddol Cymru. Rhyngddynt mae cyfanswm poblogaeth o 202,661 (Cyfrifiad 2001). Conwy yw'r sir fwyaf gyda phoblogaeth o 109,596. Yng Nghonwy mae 24.1% o'r boblogaeth rhwng 0-19 oed ac yn Sir Ddinbych mae 22.7% rhwng yr oedran hwn. Mae'r ddau ffigur hwn yn debyg i'r ffigur cyfartalog ar gyfer Lloegr a Chymru, sef 25.1%.
- Poblogaeth o bobl groenwyn sydd yn bennaf yn y ddwy ardal, gyda 98.9% yng Nghonwy a 98.8% yn Sir Ddinbych. Mae'r ddau ffigur hwn yn debyg i'r ffigur cyfartalog ar gyfer Lloegr a Chymru, sef 97.9%. Mae'r canrannau ar gyfer yr holl grwpiau ethnig lleiafrifol dan 1%, sydd yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.
- Yn Sir Ddinbych mae 36.0% o'r boblogaeth yn meddu ar un sgil neu fwy yn yr iaith Gymraeg, Yng Nghonwy mae'r ffigur hyd yn oed yn uwch, sef 39.7%. Mae'r ddau ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 28.4%.
- Mae lefelau diweithdra yn y ddwy sir yn 3.7%. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr a Chymru sef 3.4%. Mae'r lefelau cyflogaeth yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr a Chymru oherwydd yn y ddwy ardal mae'r lefel o drigolion sydd wedi ymddeol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 13.6%, gyda 18.8% o'r boblogaeth wedi ymddeol yng Nghonwy a 16.2% yn Sir Ddinbych.
- Mae'r YOT wedi'i leoli ym Mae Colwyn, sydd wedi'i leoli ar ganol arfordir y gogledd sy'n ymestyn ar draws y ddwy sir. Yn ôl y YOT, mae oddeutu 70% o lwyth gwaith y tîm yn dod o'r ardal fechan hon o Gonwy a Sir Ddinbych, Er mwyn galluogi'r YOT gynnwys yr holl ardal mae staff yn aml yn defnyddio adnoddau cymunedol fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymuned mewn ardaloedd gwledig.
- Mae ffigurau Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer troseddau ieuenctid rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003 (a ddangosir isod) yn nodi bod troseddu yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn llawer is na'r ffigur cyfartalog i bob YOT yn Lloegr a Chymru. Er hynny roedd y ffigur am droseddau trefn gyhoeddus bron yr un fath a'r ffigur cyfartalog cenedlaethol ac roedd y ffigur am fyrglera annomestig yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

	Nifer y troseddau yng Nghonwy a Sir Ddinbych	Cyfartaledd ar sail pob YOT yn Lloegr a Chymru
Trais yn erbyn unigolyn	116	222
Troseddau hiliol	4	9
Troseddau rhyw	1	11
Marwolaeth neu anaf yn sgil gyrru diofal	0	0.8
Troseddau cerbydau	161	394
Lladrata	0	30
Byrglera domestig	25	50
Byrglera annomestig	47	36
Lladrata o gerbydau	69	97
Lladrata a delio gydag eiddo	163	305
Twyll a ffugio	7	19
Llosgi	7	9
Difrod troseddol	132	175
Troseddau cyffuriau	48	85
Trefn gyhoeddus	111	113
Arall	34	61
Torri amod rhyddhau	1	9
Torri gorchymyn statudol	17	52
Torri amod mechnïaeth	12	31
CYFANSWM	955	1708.8

1. TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH

1.1 Arweiniad

Meini prawf yr archwiliad

Mae'r Bwrdd Rheoli:

- *yn darparu trosolwg a chyfeiriad ac mae'n cydlynu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y YOT a chyrff sy'n bartneriaid*
- *yn cynnwys cynrychiolwyr priodol sy'n mynychu ac yn cymryd rhan weithgar mewn cyfarfodydd*
- *yn sicrhau bod manylion data cywir ac amserol ar gael, ar gyfer ei ddefnydd ei hun a defnydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid*
- *yn rhoi cefnogaeth a chanllawiau i reolwraig YOT, gan sicrhau eu bod yn ymwneud â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol*
- *yn sicrhau bod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei weithredu.*

Gan Brif Weithredwr Conwy yr oedd y cyfrifoldeb am arwain y YOTs ond roedd prif swyddog polisi o swyddfa Prif Weithredwr Sir Ddinbych yn cadeirio'r Grŵp Llywio. Roedd yn cynnwys rheolwyr strategol a gweithredol o'r ddau awdurdod lleol, prif swyddogion o'r heddlu a'r ardal brawf leol, cynrychiolwyr ar lefel rheolwyr strategol a gweithredol o rai o'r prif gyrff gwirfoddol, fel Cynnal Dioddefwyr, NCH Cymru, a chynghorydd o Gonwy. Nid oedd cynrychiolydd o'r byrddau iechyd lleol, er i ni gael ar ddeall bod cynrychiolydd cyn i'r gwasanaeth iechyd gael ei ad-drefnu'n lleol. Er bod Cyfarwyddwr Corfforaethol Gofal Cymdeithasol a Iechyd ar gyfer Conwy wedi ymuno'n ddiweddar, roedd mwyafrif yr aelodau'n rHeolwyr gweithredol.

Nid oedd unrhyw drefniant cydlynu ffurfiol rhwng cadeirydd y Grŵp Llywio, oedd ar raddfa is na Rheolwr Strategol YOT, a Phrif Weithredwr Conwy. O ganlyniad, roedd y Prif Weithredwr yn dibynnu ar Reolwraig Strategol YOT am wybodaeth ar ei gynnydd. Roedd y cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Rheolwr Strategol YOT ac yn manteisio ar y cyfle i graffu ar y manylion data cyn iddynt gael eu hanfon i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Er hynny, roedd yn ymddangos oherwydd amseriad y cyfarfodydd, bod y manylion data hyn yn aml yn cael eu cyflwyno mewn modd adolygol i weddill y Grŵp Llywio. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n fodlon bod y YOT yn perfformio'n dda a bod gwybodaeth yn cael ei hanfon i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid mewn modd amserol. Er hynny, dywedodd rhai aelodau fod y data ar brydiau'n ddryslyd a gallai arwain at gamddehongli. Nid oedd unrhyw strwythur ffurfiol i'w weld ar gyfer adolygu'r gwaith o weithredu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid na monitro atborth defnyddwyr.

Er bod cysylltiadau wedi'u sefydlu gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, roedd aelodau'r Grŵp Llywio o'r farn bod angen deialog mwy uniongyrchol

gan fod nifer o gwestiynau a godwyd heb eu hateb. Nodwyd bod diffyg ymwybyddiaeth o'r rhaglen ar gyfer Cymru, cael mynediad i gyfleusterau diogel yn agos i ardal cartref y plentyn neu'r person ifanc, ardaloedd gwledig a diffyg 'model' o brotocolau staffio a chanllawiau ar indemniad, i gyd yn feysydd y gallai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac y dylai fod wedi rhoi sylw iddynt. Mae'r materion hyn wedi cael eu codi Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Roedd aelodaeth y Grŵp Llywio'n dylanwadu ar ei allu i wneud penderfyniadau strategol/neu ariannol a oedd yn aml yn cael eu gohirio ar gyfer ymgynghori pellach o fewn asiantaethau cyllido unigol. Er eu bod yn gefnogol, roedd aelodau'r Grŵp Llywio'n cydnabod nad oeddynt wedi darparu arolygiaeth a chyfeiriad i'r YOT, ond eu bod wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithredol, gan ddisgwyl am gyfeiriad strategol gan Reolwraig YOT. Roedd rhai'n ansicr ai Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid neu'r Prif Weithredwyr lleol oedd yn gyffredinol gyfrifol am y YOT. Roedd eraill yn ansicr am ei rôl a manteision cytbwys o ran targedau a blaenoriaethau, er eu bod yn rhannu llwyfannau eraill, fel y Grŵp Llywio Diogelwch Cymunedol gyda Rheolwr Strategol YOT.

Er hynny roedd tystiolaeth o newid. Roedd Prif Weithredwr Conwy wedi cydnabod bod y YOT angen cyfeiriad strategol ac roedd wedi ysgrifennu ar Brif Weithredwr Sir Ddinbych ynghylch ffurfio grŵp uwch reoli, i'w gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Conwy. Cawsom ein sicrhau gan y Prif Weithredwr y byddai'r grŵp hwn yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cryfder:

- Roedd y Grŵp Llywio'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn darparu lefel o gefnogaeth i Reolwraig Strategol YOT.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd y Grŵp Llywio'n rhoi'r weledigaeth a'r cyfeiriad angenrheidiol i'r YOT.
- Nid oedd y byrddau iechyd lleol yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Llywio.
- Nid oedd y Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o lefelau priodol yn y cyrff partneriaid.
- Nid oedd y Grŵp Llywio'n gallu sicrhau manylion data cywir ac amserol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na bod aelodau'r grŵp yn deall pa mor berthnasol oeddynt i waith asiantaethau partner.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod nifer o ymyriadau a gwasanaethau yn cael eu darparu i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n troseddu a'r rhai mewn risg o droseddu.*
- *Bod YOTs wedi'u staffio'n briodol gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r Swyddfa.*
- *Bod Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu strategaethau partneriaid.*
- *Bod protocolau wedi'u cytuno rhwng y YOT, ei bartneriaid statudol a chyrff eraill gan amlinellu lefel y gwasanaeth, materion adnoddau dynol a threfniadau cyllido.*
- *Bod contractau yn eu lle gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gydlynu a bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc.*

Roedd y YOT a'i bartneriaid yn darparu nifer o wahanol wasanaethau ac adnoddau i blant a phobl ifanc Conwy a Sir Ddinbych. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig ar sail wirfoddol a statudol i'r rhai oedd yn agored i rybudd terfynol, gorchymyn llys neu rai a ystyrid oedd mewn risg o droseddu.

Roedd yr holl bartneriaid statudol wedi darparu staff ar gyfer y YOT, ond ar hyn o bryd roedd un swydd wag ar gyfer gweithiwr cymdeithasol i Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych oedd yn wynebu'r un prinder sgiliau y mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a YOTs yn eu hwynebu mewn ardaloedd eraill o Gymru a Lloegr. Roedd newidiadau sylweddol wedi bod o ran trefniadau staffio YOTs yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys tri allan o dîm o saith o weithiwr cymdeithasol, ei swyddog prawf, gweithiwr iechyd a swyddog clerigol. Er bod Rheolwr Strategol bresennol YOT wedi dal y swydd ers dwy flynedd, sef y cyfnod hiraf o sefydlogrwydd o unrhyw un yn y rôl hon, roedd swyddi rheolwr gweithredol ac uwch ymarferwyr yn cael eu llenwi gan staff oedd yn ymwneud â dyletswyddau ychwanegol yn ystod cyfnod mamolaeth. Dim ond un partner a allodd sicrhau unrhyw arbedion cyflog i YOT yn ystod bylchau rhwng llenwi swyddi er mwyn trefnu staff cyflenwol.

Roedd rhai staff yn cael eu secondio, ond roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi o fewn y YOT. Roedd manylion am raglenni hyfforddiant perthnasol yn cael eu dosbarthu i'r gweithwyr cymdeithasol ac roedd system symud ymlaen mewn gyrfa hyd at lefel ôl-gymhwyso. Nid oedd gan swyddogion yr heddlu oedd yn cael eu secondio i'r YOT fynediad i daliad trothwy. Mae hwn yn daliad ychwanegol a roddir i swyddogion heddlu gweithredol y rheng flaen ac roedd penderfyniad wedi'i wneud ar lefel ardal na fyddai swyddogion yr heddlu a gâi eu secondio i'r YOT yn gymwys ar gyfer hwn. Nid oedd unrhyw strategaeth ddychwelyd neu gynllunio gyrfa a chefnogaeth i weithwyr YOT oedd yn nesau at ddiwedd eu secondiad nac unrhyw gytundeb ffurfiol i staff wedi'u secondio gysylltu'n ôl â'u prif gyflogwr blaenorol. O ganlyniad i hyn, roedd yr asiantaethau hynny'n methu'r cyfle i wella eu dealltwriaeth o'r gwaith gyda'r YOT.

Er bod y YOT wedi datblygu protocolau gyda'r rhan fwyaf o'i asiantaethau partner, roedd rhai angen sylw er mwyn mynd i'r afael ag anghenion eu staff oedd wedi'u secondio, darpariaeth gwasanaethau ac adnoddau i'r YOT, cyllid, cynrychiolaeth a chyswllt rhwng targedau a blaenoriaethau. Roedd nifer o brotocolau gydag asiantaethau partner, yn wirfoddol a statudol, yn dal yn y cyfnod datblygu, dywedwyd bod rhai wedi'u cwblhau ond er hynny nid oeddynt wedi'u llofnodi. Roedd un asiantaeth wirfoddol yn edrych ar y sefyllfa hon yn gadarnhaol, gan ddisgrifio'r protocol fel dogfen waith oedd yn dal i ddatblygu. Er hynny, yr effaith yn sgil hynny oedd bod staff a rheolwyr yn y YOT yn ymddangos yn ansicr o'u rolau. Mae'r sefyllfa hon angen sylw. Roedd yn arbennig o bwysig bod protocolau a sefydlwyd gan y YOT gydag asiantaethau gwirfoddol a statudol yn egluro eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau perthnasol o ran diogelu plant, rheoli risg a iechyd a diogelwch.

Roedd YOT yn ychwanegu at ei gyllid craidd drwy grantiau gan wahanol ffynonellau oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ffurfio rhai partneriaethau gydag asiantaethau gwirfoddol. Er y gall partneriaethau o'r fath gyfrannu'n helaeth at y YOT, mae dibynnu llawer ar y math hwn o gyllid yn gallu peri problemau o ran cynllunio strategol, parhad gwasanaethau a rheoli ansawdd. Roeddem hefyd yn bryderus bod y YOT yn ymddangos fel pe baent yn ymateb i gynigion o help heb fawr o gydlynu a chynllunio strategol. Nid oedd unrhyw ystyriaeth o ran strategaethau eraill dilynol ar ôl i'r cyllid orffen a phrin oedd y dystiolaeth o gadw cofnodion, monitro a gwerthuso.

Er hynny, roedd bylchau sylweddol o ran adnoddau, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd. Roedd y Nyrs Seiciatrig Cymuned (CPN) oedd wedi'i secondio i'r tîm yn gweithio hanner amser ac er ei bod yn hynod ymrwymedig, roedd ganddi achosion yn aros amdani. Yn ystod yr archwiliad, dywedwyd bod trafodaethau ar y gweill i geisio sicrhau swydd iechyd amser llawn o fewn y YOT.

Roedd y YOT yn gweithio gyda dau Awdurdod Addysg Lleol gyda gwahanol ddisgwyliadau a ffyrdd o weithio. Er bod protocol drafft yn ei le, nid oedd yn diffinio eu cyfrifoldebau perthnasol a/nac yn darparu dull gweithredu cyffredin i addysg plant a phobl ifanc yr oedd y YOT yn gweithio gyda hwy. O ganlyniad roedd gwasanaeth anghyson ar draws y YOT. Fel gyda phartneriaid eraill, roedd y YOT angen diffinio nid yn unig ei ofynion craidd ar gyfer cefnogaeth addysgol i blant a phobl ifanc o bob Awdurdod Addysg Lleol yn fwy penodol, ond hefyd i wybod yn glir beth fyddai'n ei ddarparu ei hun. Roedd angen i'r ddau bartner ystyried eu dull gweithredu gyda golwg ar y cyfrifoldebau a ddiffinnir gan ofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ehangu hawl a thargedau a chanllawiau arferion gwaith effeithiol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Hefyd roedd yn ymddangos nad oedd y gweithiwr addysg yn y YOT, oedd wedi'i gyllido ar y cyd gan y ddau awdurdod, yn cael digon o gyfleon i gyfarfod gyda rheolwyr yr Awdurdodau Addysg Lleol a thrafod darpariaeth addysgol.

Roedd rhai o'r gwasanaethau a gynigiwyd gan y YOT yn ymddangos dan bwysau penodol. Er enghraifft roedd disgwyl i'r cydlynydd ar gyfer gorchmynion cyfeirio, gynnwys pob agwedd o'r gwasanaeth pwysig a thrwm i ddioddefwyr a hefyd fod yn gyfrifol am lwyth achos llawn. O ganlyniad nid oedd dim amser neu ychydig iawn o amser oedd yn weddill ar gyfer goruchwylio a hyfforddi aelodau'r panel a rheoli ansawdd cyfarfodydd y panel, y cyfeiriwyd ato gan rai dioddefwyr a phartneriaid fel

panel oedd â thuedd amlwg o blaid y plentyn neu'r person ifanc oedd wedi troseddu.

Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bolisi cydraddoldeb ac roedd gan Sir Ddinbych ddogfen bolisi cyfleon cyfartal. Nid oedd gan y YOT ei bolisi na'i ganllawiau ei hun ar gyfer hiliaeth, amrywiaeth nac o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac nid oedd wedi'i grybwyll yn benodol yn yr un o'r dogfennau hyn. Ni welsom unrhyw dystiolaeth y bu ymgynghori ar Gynlluniau Cydraddoldeb Hiliol a chynlluniau gweithredu y naill awdurdod na'r llall, na'i fod wedi cyfrannu iddynt.

Roedd gan yr asiantaethau partner a chynrychiolwyr y llys a gafodd eu cyfweld barch uchel tuag at y YOT, oedd yn eu barn hwy, wedi camu ymlaen yn sylweddol yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd yn ystod ei ddyddiau cynnar. Roedd y llysoedd yn fodlon gydag ansawdd adroddiadau'r llys, gwasanaethau dyletswydd llys, gwybodaeth am roddi mechnïaeth eto a'r modd rhagweithiol y deliwyd gydag unrhyw bryder. Roeddynt yn credu bod y cytundeb lefel gwasanaeth ar y cyd yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cynnal perthynas effeithiol.

Arfer da

Roedd y YOT yn cynnal diwrnodau agored blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i asiantaethau partner, dedfrydwr ac aelodau lleol y cyngor ynghylch ei waith. Yn ôl barn y llysoedd lleol roedd hyn yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth.

Cryfderau:

- Roedd y YOT yn cysylltu'n dda gyda rhaglenni lleol ac roedd asiantaethau partner yn canmol ei waith a Rheolwr Strategol YOT.
- Roedd yr holl bartneriaid statudol wedi gwneud cyfraniad o ran staffio a chyllid a rannwyd i YOT.
- Roedd y llysoedd yn fodlon gydag ansawdd y gwasanaeth yr oeddynt wedi'i dderbyn gan y YOT.
- Roedd perthynas waith dda rhwng yr heddlu a Rheolwr Strategol YOT oedd wedi'i gwahodd yn ddiweddar i ymuno â Thasglu Rheoli'r Heddlu i ddyrannu adnoddau, adolygu tueddiadau o ran troseddau a thargedau.
- Sicrhawyd nad oedd gan staff a gwirfoddolwyr gofnodion troseddol.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd adolygiad o drefniadau cyllido a staffio YOT wedi'i gynnal.
- Nid oedd gan y YOT unrhyw bolisi na chanllawiau ar gyfer hiliaeth, amrywiaeth nac o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.
- Nid oedd y ddarpariaeth staffio gan y gwasanaeth iechyd yn cwrdd â'r galw presennol.
- Nid oedd trefniadau partneriaeth yn rhoi sylw i rolau a chyfrifoldebau'r asiantaeth berthnasol o ran diogelu plant, asesu risg a rheoli a chofnodi gwaith, nac yn rhoi canllawiau clir ar y defnydd priodol o adnoddau.

Arfer da	Cynrychiolodd Rheolwr Strategol YOT Grŵp Rheolwyr YOT ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a chadeiriodd Fforwm Cyfiawnder Ieuenctid y Bwrdd hwn.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd yn unol â'u hanghenion datblygu ac asesu lefel gallu.*
- *Bod gwerthuso blynyddol yn cynnwys amcanion sydd yn gysylltiedig â thargedau lleol a chenedlaethol.*
- *Bod pob aelod o staff yn cael cyfleon hyfforddi priodol i'w harfogi i gwrdd ag anghenion y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.*
- *Bod staff wedi'u cymhwyso'n briodol gan wirio nad oes ganddynt gofnod troseddol.*
- *Bod gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol, ac ar gael i wneud gweithgareddau YOT. Gwirir nad oes ganddynt gofnod troseddol.*
- *Bod cytundebau ar y cyd yn eu lle ar gyfer rheoli gweithdrefnau disgyblaethol, gallu a chwyno.*
- *Bod cwynion yn cael eu rheoli'n briodol.*

Mae'r YOT wedi datblygu canllawiau sydd wedi'u diffinio'n glir ynglŷn â goruchwylio a gwerthuso staff sydd yn cysylltu amcanion gwerthuso ag amcanion y tîm fel a fanylir yn y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd proses gynefino wythnos o hyd ar gyfer pob aelod newydd o staff, wedi'i gefnogi gan becyn cynefino cynhwysfawr. I'r aelodau newydd hynny o'r tîm nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o YOT, rhoddwyd llwyth achosion gwarchodedig iddynt ac anogwyd hwy i ddefnyddio cefnogaeth grŵp cymheiriaid yn ystod camau cynnar eu cyflogaeth. Er bod y pecyn cynefino'n crybwyll polisi gweithio'n unigol, nid oedd staff yn ymwybodol o'r polisi hwn, ac nid oedd unrhyw ganllawiau oedd yn rhoi sylw penodol i iechyd a diogelwch staff yn gweithio yn y YOT. Roedd y staff mwy profiadol yn dibynnu ar arfer gwaith a etifeddwyd gan eu hasiantaethau secondio.

Nid oedd Rheolwr Strategol YOT yn cael ei goruchwylio gan ei rheolwr llinell. Yn hytrach cynhaliwyd 'cyfarfodydd chwarterol' ac fel aelod o'r uwch dîm rheoli roedd Rheolwr Strategol YOT yn mynychu cyfarfodydd y grŵp hwn fel bo hynny'n briodol. Nid oedd Rheolwr Strategol YOT wedi'i gwerthuso yn ystod y ddwy flynedd yn ei swydd.

Er gwaethaf y canllawiau strwythuredig, canfuom fod goruchwylio staff o fewn y YOT yn anghyson o ran ansawdd a chysondeb ac yn aml roedd yn digwydd ar sail trafodaethau achos. Roedd yn ymddangos mai prin oedd y ffocws ar ddatblygu staff ac roedd y gwaith o gofnodi'r sesiynau goruchwylio hyn weithiau'n anghyflawn. Er hynny roedd tystiolaeth bod datblygiad unigol a newidiadau o ran cyfrifoldeb yn cael eu cydnabod. Yn unol â'r system symud ymlaen mewn gyrfa, roedd o leiaf dau aelod o'r tîm wedi cael uwchraddio eu swyddi i lefelau cyflog uwch. Roedd nifer

cyfyngedig o staff wedi'u gwerthuso. Er hynny gallai absenoldeb un o'r rheolwyr gweithredol yn y misoedd blaenorol fod wedi gwaethygu'r sefyllfa. Mae angen rhoi sylw i oruchwylio a gwerthuso.

Roedd pob aelod o staff, yn cynnwys gweithwyr gwirfoddol a thymhorol, wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant. Er hynny, cydnabuwyd yr angen am ganllawiau ynghylch arferion gwaith, hyfforddiant gloywi a goruchwylio nes o ran rheoli mewn perthynas â diogelu plant ac asesu a rheoli risg, gan ei fod wedi'i gydnabod nad oedd arferion gwaith yn ddigon cadarn. Roeddem yn bryderus ynghylch math ac ansawdd gwasanaethau y gellid eu cynnig i rywun o gefndir lleiafrifol ethnig, fel y canfuwyd o'n trafodaethau gyda staff, roedd gan nifer ddiffyg dealltwriaeth o'r materion gan dueddu i leihau'r pryderon. Roedd hyfforddiant ar amrywiaeth wedi'i gynllunio ar gyfer y tîm ond roedd wedi cael ei ohirio yn sgil pwysau llwyth gwaith, er bod rhai aelodau o staff wedi mynychu digwyddiadau tebyg gyda'r heddlu.

Roedd pedwar aelod o staff YOT yn ymgeisio am dystysgrif Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid mewn arferion gwaith effeithiol. Hefyd roedd gan YOT bŵl o athrawon wedi'u hachredu mewn arferion gwaith ac mae'n darparu lleoliadau'n rheolaidd i fyfyrwyr sy'n astudio am Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol a swyddogion prawf dan hyfforddiant.

Nid oedd unrhyw drefniadau partneriaeth rhwng y YOT a phartneriaid statudol o ran materion staffio, adnoddau, trefniadau cyllido, cwynion, disgyblaeth, gallu, cwynion, hyfforddiant, goruchwylio a gwerthuso. Roedd diffyg trefniadau o'r fath wedi'u tanlinellu mewn cŵyn a wnaed 12 mis cyn yr archwiliad a oedd eto i'w ddatrys ac roedd wedi cael effaith negyddol ar staff.

Cryfderau:

- Roedd Rheolwr Strategol YOT a'r tîm yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.
- Roedd rhaglen gynefino dda i staff newydd.
- Roedd gan y YOT strwythurau a chanllawiau ynghylch arferion gwaith ar gyfer goruchwylio a gwerthuso staff.
- Roedd peth goruchwylio a gwerthuso'n digwydd.
- Disgrifiwyd y YOT gan lawer fel tîm brwd ac ymrwymedig oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.
- Roedd gan staff dealltwriaeth dda o egwyddorion ynghylch arferion gwaith effeithiol oedd wedi'u datblygu'n dda o fewn y YOT.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd gan Reolwr Strategol YOT unrhyw gefnogaeth a goruchwyliaeth glir gan reolwr llinell.
- Roedd y dasg o oruchwylio staff o fewn YOT yn anghyson.
- Nid oedd unrhyw gytundeb partneriaeth rhwng y YOT a phartneriaid strategol oedd yn diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau o ran cwynion, disgyblaeth, gallu a threfniadau secondio staff.

- Roedd angen i YOT a'i holl asiantaethau partner ddatblygu staff a gwasanaethau yn unol â chanllawiau Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer YOTs sef, 'Cyflawni Cydraddoldeb', a gyhoeddwyd i reolwyr YOT yn 2001.
- Roedd angen i YOT ddatblygu ei bolisi a'i arferion iechyd a diogelwch, gan roi sylw arbennig i staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a chludo plant a phobl ifanc.
- Dylai diogelu plant, asesu a rheoli risg, a iechyd a diogelwch i staff ac aelodau'r cyhoedd fod yn rhan o'r holl brotocolau a chytundebau.

ASESIAD CYFFREDINOL O DREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn rhannol.

2. PLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU

2.1 Asesu'r rhai sydd mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod mecanwaith ar gyfer adnabod y plant a'r bobl ifanc hynny o fewn yr ardal sydd mewn risg o droseddu.*
- *Bod trefniadau ar gyfer asesu anghenion yr unigolion hynny sydd wedi'u hadnabod o fod mewn risg o droseddu.*

Roedd y YOT wedi dynodi aelod o staff i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn risg o droseddu, ac mewn partneriaeth â nifer o gyrff eraill, roeddent yn gyfrifol am adnabod a darparu gwasanaethau i'r grŵp hwn. Roedd hefyd yn cyfrannu i dimau gweithredu lleol dan y CDRPs, gan gynnwys Niwsans ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan yr Ifanc. Wedi i blentyn neu berson ifanc ddod i sylw'r heddlu ar dri achlysur am ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond heb ei arestio am droseddu, roeddent yn cael eu cyfeirio i'r YOT ar gyfer eu hasesu ac ystyried ymyriadau. Cyfeiriwyd unigolion hefyd o asiantaethau partner eraill yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion a PRUs.

Cwblhawyd ffurflenni ASSET gan yr holl blant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at y gweithiwr arbenigol ac roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses hon gan amlaf. Cynigwyd rhai ymyriadau fel rhan o Gontract Ymddygiad Derbyniol.

Cryfderau:

- Roedd gweithiwr wedi'i adnabod i fod yn gyfrifol am atal.
- Roed mecanwaith ar gyfer cyfeirio i'r YOT.
- Roedd yr holl blant a phobl ifanc a gâi eu cyfeirio at y gweithiwr atal arbenigol yn cael eu hasesu gan ddefnyddio ASSET.

2.2 Ymyriadau ar gyfer y rhai mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod trefniadau er mwyn darparu ymyriadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny o fewn yr ardal oedd wedi'u hasesu o fod mewn risg o droseddu.*
- *Bod gan y YOT fethodoleg ar gyfer mesur effeithiolrwydd rhaglenni ymyriadau ataliol.*
- *Bod ymyriadau'n briodol i anghenion amrywiol plant a phobl ifanc yn ardal y YOT a'u bod yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc.*
- *Bod ymyriadau'n targedu anghenion criminogenig y rhai sydd mewn risg o droseddu.*

Roedd holl adnoddau YOT ar gael i'r gweithiwr atal arbenigol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny oedd wedi'u hasesu o fod mewn angen. Hefyd roedd rhaglen ataliol a dargedwyd wedi'i datblygu oedd yn cynnwys gweithgareddau awyr agored, gymnasiwm, gwaith celf gan orffen gan amlaf gyda thaith, profiad heriol oedd yn hybu nifer o sgiliau, yn cael ei gynnig fel rhan o raglen Dug Caeredin.

Roedd gwaith o fewn ysgolion yn cael ei ddatblygu drwy weithiwr addysg YOT a swyddogion yr heddlu ar y cyd â YPSMS a gyfrannodd ar y cyd fewnbwn ar gamddefnyddio cyffuriau i gwricwlwm dinasyddiaeth mewn ysgolion. Roedd swyddogion yr heddlu'n cynnig gwasanaeth cyfryngu i ddatrys gwrthdaro rhwng disgyblion.

Wrth ddarparu gwasanaethau i'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc, roedd y YOT yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau gwirfoddol ac eraill gyda'r mentrau canlynol:

Get Hooked on Fishing

Dyma fenter a gychwynnwyd yn Swydd Durham yn Ebrill 2000 sydd wedi'i mabwysiadu gan YOT Conwy-Sir Ddinbych ac yn cael ei chynnig i rai rhwng 10-16 oed. Hefyd mae plant a phobl ifanc gyda phroblemau ymddygiad gan gynnwys ADHD wedi'u cyfeirio o ysgolion i'r cynllun hwn.

Cynllun Gwobrau Dug Caeredin

Mae'n cynnig cymwysterau OCN.

YPSMS

Mae wedi'i gyllido gan Ddiogelwch Cymunedol ac mae wedi'i leoli yn swyddfeydd YOT. Roedd y gwasanaeth hwn ar gael i blant a phobl ifanc oedd wedi troseddu a'r rhai heb droseddu. Roedd yn darparu nifer o ymyriadau yn cynnwys aromatherapi ac aciwbigo.

NACRO
Roedd yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol a gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc oedd wedi troseddu a'r rhai heb droseddu.
SPLASH
Roedd hwn yn gynllun wedi'i gyllido gan Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer plant wedi'u heithrio'n gymdeithasol a phobl ifanc yng Ngorllewin/De'r Rhyl. Roedd wedi'i leoli yn Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Sir Ddinbych ac roedd y YOT yn darparu staff a chefnogaeth gwerthuso.
Swyddog Cyfryngu a Gwnedu Iawn YOT
Roedd yn cynnig gwasanaeth cyfryngu i blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

Cryfderau:

- Roedd y YOT yn cynnig nifer o wahanol wasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc.
- Nid oedd plant a phobl ifanc a gymerai ran yn y gwasanaethau hyn yn ymddangos fel pe baent yn dioddef o unrhyw stigma oherwydd eu rhan yn ymyriadau'r YOT nac o fynychu ei swyddfeydd ar gyfer y gwasanaethau hyn.
- Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gweithgaredd Get Hooked on Fishing.

2.3 Deilliannau ar gyfer y rhai mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod y rhai sydd mewn risg o droseddu ac yn ymwneud ag ymyriadau yn cymryd rhan mewn gweithgaredd er mwyn lleihau eu risg o droseddu.*

Roedd y YOT yn cadw cofnodion o nifer y plant a phobl ifanc oedd yn cael eu cyfeirio i'r mentrau dan eu rheolaeth gan gael atborth gan y rhai oedd yn ymwneud â'r mentrau. Roedd yn amlwg, o'r hyn a welsom, eu bod yn elwa'n fawr o rai o'r rhaglenni, yn arbennig gwobrau OCN Dug Caeredin.

Er hynny nid oedd modd mesur effaith. Roedd atborth gan asiantaethau partner ynglŷn â mentrau eraill yn awgrymu bod peth cynnydd yn digwydd ym maes atal troseddu ac aildroseddu.

Cryfder:

- Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau er mwyn eu cadw rhag troseddu.

Maes sydd angen ei wella:

- Nid oedd system wedi'i datblygu i fonitro neu werthuso effaith y gwaith hwn.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn foddhaol.

3. PLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU

3.1 Asesu plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Cynhelir asesiadau cynhwysfawr o anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, yn ôl y cyfnodau sy'n angenrheidiol gan safonau cenedlaethol a chanllawiau ynghylch arferion effeithiol.*
- *Asesir yn llawn y risg o niwed i eraill.*
- *Asesir yn llawn, y risg o niwed i'r hunan neu i eraill.*
- *Ysgrifennu cynlluniau goruchwylio yn unol â safonau cenedlaethol, yn deillio o ASSET ac yn cynnwys amcanion SMART.*
- *Asesiadau i roi sylw i anghenion criminogenig, fel iechyd ac ETE, a chymryd i ystyriaeth wahaniaethau diwylliannol, amrywiaeth a diogelu plant a phobl ifanc.*
- *Bod ASSET yn cael ei ddiweddaru yn unol â safonau cenedlaethol a bod canllawiau arferion gwaith effeithiol ar adegau perthnasol yn ystod cyswllt gyda phlentyn neu berson ifanc.*
- *Cynnal asesiadau arbenigol o'r rhai ag anghenion penodol neu rai sydd wedi'u hasesu fel risg o niwed i eraill.*
- *Bod adnoddau wedi'u hadnabod a bod gallu i gwrdd ag anghenion sydd wedi'u hasesu.*

Roeddem yn falch o ganfod bod asesiadau cychwynnol ar y cyfan yn cael eu cwblhau'n unol â'r safon genedlaethol yn 94% o'r achosion a archwiliwyd. Roedd gan y plentyn neu'r person ifanc ran yn yr asesiad mewn 87% o achosion a'r rhieni/gofalwyr mewn 75% o achosion.

Nid oedd asesiad risg llawn o niwed difrifol wedi'i gwblhau mewn nifer sylweddol o achosion perthnasol. Prin oedd y rhai oedd wedi'u hasesu fel unigolion a fyddai'n peri risg o niwed i eraill, oedd wedi'u cyfeirio i sylw rheolwyr i'w harchwilio. Er hynny, roedd canran sylweddol wedi'u hasesu o fod mewn risg o hunan-niwed (21 neu 36%), neu mewn risg benodol o niwed gan eraill (13 neu 23%), a hynny'n nodi ymwybyddiaeth staff o sefyllfa fregus y llwyth gwaith yn gyffredinol.

Yn ôl y wybodaeth o ffeiliau roedd 71% o gynlluniau goruchwylio yn cael eu cwblhau o fewn amserlen y safon genedlaethol, dim ond 58% oedd yn cwrdd â'r gofynion o ran cynnwys a 39% yn unig o'r amcanion oedd wedi'u hasesu fel SMART, fel a ddiffinnir yng nghanllawiau arferion gwaith effeithiol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Ni chyfeiriwyd achosion o rybudd terfynol am asesiad YOT cyn rhoi'r rhybudd terfynol. Er hynny, roedd yr asesiad yn cael ei gwblhau'n unol â gofynion safonau cenedlaethol yn dilyn gwybodaeth gan yr heddlu.

Roedd problemau ynghylch asesu anghenion iechyd plant a phobl ifanc oherwydd mai swydd rhan amser oedd wedi'i chyllido, a chanfuwyd nifer o achosion yn aros i'w gwneud. Roedd yn ymddangos hefyd bod CAMHS dan bwysau, gydag achosion wedi'u cyfeirio ar gyfer eu hasesu, os caent eu derbyn, yn cymryd rhwng 6 a 12 wythnos ac mewn rhai achosion 18 mis. O ganlyniad, er bod staff YOT eraill yn defnyddio'r SDQ ar y cyd ag ASSET, nid oedd unrhyw fewnbwn gan iechyd i naill ai'r ASSET na'r PSRs. Roedd yn debygol felly nad oedd anghenion iechyd llawn plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu'n briodol na'u cwrdd. Roedd yr angen am ymyrraeth iechyd yn amlwg o archwilio ffeiliau achos a oedd yn dangos bod 25% o blant a phobl ifanc ag angen iechyd corfforol a bod gan 60% angen iechyd emosiynol.

Roedd y gweithiwr addysg wedi negydu ynghylch cyfraniad ysgolion lleol, ac Awdurdodau Addysg Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn natblygiad y cynllun dysgu unigol drwy ASSET. Roedd protocol ysgrifenedig wedi'i baratoi oedd yn cynnwys proformas i ysgolion eu cwblhau pan gâi plentyn neu berson ifanc ei gyfeirio gyntaf i sylw YOT. Roedd y data'n adnabod gallu ac anghenion dysgu'r plentyn neu'r person ifanc, eu patrwm o ran mynychu ysgol ac unrhyw waith adferol oedd ei angen. Roedd y broses yn cael ei threialu ac er ei bod yn rhy gynnar i'r YOT werthuso'i gyfraniad, roedd er hynny'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr achos.

Roedd 16 ysgol yn ardal y YOT. Roedd y gweithiwr addysg wedi datblygu cysylltiadau gyda'r holl ysgolion uwchradd, gyda'r cyswllt cryfaf, mwyaf priodol gyda'r PRUs ac EOTASS.

Arfer da

Roedd yr YOT wedi cyflwyno proforma i ysgolion ei gwblhau pan gâi plentyn neu berson ifanc ei gyfeirio am y tro cyntaf ato er mwyn cryfhau'r elfen addysg o fewn dull ASSETs.

Cryfderau:

- Roedd staff YOT yn defnyddio ASSET a SDQ yn eu hasesiadau.
- Roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu yn unol â gofynion safonau cenedlaethol.
- Roedd rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn yr asesiadau hyn.
- Roedd y proforma addysg a gyflwynwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod cyfraniad priodol gan yr ysgol i'r broses asesu.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd unrhyw gyfraniad gan weithiwr iechyd yn y gwaith o asesu plant neu bobl ifanc unigol a dull sgorio cyffredinol ASSET.
- Nid oedd yr adran ar niwed yn ASSET wedi'i gwblhau yn yr holl achosion priodol.
- Nid oedd yr asesiad o risg o niwed i eraill ac i'r hunan wedi'i integreiddio i'r asesiad cyffredinol o'r plentyn neu'r person ifanc.
- Dylai rheolwyr adolygu a chyfrannu at yr asesiad risg o niwed i eraill.
- Nid oedd cynlluniau goruchwylio cychwynnol bob amser wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen oedd yn ofynnol yn ôl safonau cenedlaethol, ac nid oeddynt wedi'u targedu nac yn SMART.

3.2 Ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod ymyriadau:*
  - *wedi'u targedi mewn meysydd o angen lle aseswyd fel addysg, iechyd a pherthynas â rhieni, ayb*
  - *ar gael sydd yn benodol i anghenion ac ymddygiad tramgwyddus genethod a merched ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifol ethnig, y rhai ag anableddau gan ystyried diogelu plant a phobl ifanc*
  - *yn gyson gydag egwyddorion arferion gwaith effeithiol.*
- *Bod amlder yr apwyntiadau yn gyson gyda safonau cenedlaethol a chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer rhybuddion terfynol, gorchmynion cyfeirio, cosbau cymunedol, DTOs (cyn y ddalfa a chyn hynny) ac ISSPs (pan fônt yn bodoli).*
- *Bod gorfodi'n digwydd pan na fydd unigolion yn cydymffurfio.*

Gwelwyd tystiolaeth o rai ymyriadau arloesol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lles a chriminogenig plant a phobl ifanc. Er hynny, roedd llai o bwyslais ar roi sylw i ymddygiad tramgwyddus a phrin oedd unrhyw waith grŵp yn cael ei ddarparu. Roedd nifer o gyfleon dysgu gwahanol o safon uchel i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnodau cyn troseddu ac ar ôl troseddu. Roedd y rhain yn cynnwys:

Mewn partneriaeth gyda'r RSPB, Coleg Amaethyddol Northrop, Gyrfa Cymru, Awdurdod Addysg Lleol a NACRO

Paratowyd rhaglen yn seiliedig ar sgiliau un diwrnod yr wythnos ar hyfforddiant mewn cadwraeth dros gyfnod o 33 wythnos ar gyfer blynyddoedd 10, 11 a disgyblion 16 oed neu fwy yn gadael ysgol. Roedd y cwrs yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ennill cymhwyster OCNs a NVQs. Roedd Gyrfa Cymru'n ategu'r cwrs fel rhan o'u darpariaethau 'Skillbuild' a gwelwyd hynny fel modd o gynnig cychwyn ymarferol i blant a phobl ifanc i'r farchnad lafur.

Cynllun Gwobrau Dug Caeredin

Gan weithio'n agos gyda'r YOT roedd plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fanteisio ar gyfleon oedd yn cynnig her o ran datblygiad personol, yn cynnwys gwaith cymunedol, datblygu sgiliau, profiadau antur ac awyr agored. Roedd y prosiect wedi secondio aelod o staff i'r YOT yn benodol i ddatblygu'r gwaith hwn. Roedd y rhaglen yr un fath â darpariaeth eraill Dug Caeredin, ond roedd cefnogaeth a goruchwyliaeth bersonol gryfach er mwyn sicrhau bod y sialens yn briodol i'w hanghenion personol a'u datblygiad. Roedd plant a phobl ifanc yn gallu parhau â'u gwaith gyda Dug Caeredin drwy ganolfannau agored lleol unwaith eu bod wedi cwblhau eu cyfnod o oruchwyliaeth gan y YOT.

Mewn parteriaeth gyda chlybiau pêl-droed lleol a'r Fenter *Football in the Community Initiative*

Roedd plant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant mewn sgiliau hyfforddi.

Arfer da

Roedd plant a phobl ifanc oedd yn cymryd rhan mewn grwpiau oedd yn rhoi sylw i'w hymddygiad tramgwyddus neu faterion yn ymwneud â throseddu, h.y. sesiynau ar ymwybyddiaeth cyffuriau, yn gallu ennill credyd ffurfiol o'u profiad drwy OCN. Gellid cyfuno hyn gyda gweithgareddau eraill i ennill gwobr lawn Dug Caeredin.

Mae achosion y YOT ar hyn o bryd 100% yn wyn. Roedd 96% o'r achosion sampl yn groenwyn-Brydeinig a 4% yn groenwyn-Wyddelig. Ystyrid bod diwylliant, crefydd, hil, ac anghenion penodol eraill wedi cyfrannu ar yr ASSET mewn 73% o' r achosion hyn ac i'r cynllun goruchwylio mewn 76%. Roedd y YOT yn cynnig gwasanaethau o ansawdd da i blant a phobl ifanc ac i'w rhieni/gofalwyr. Roeddynt yn dangos sensitifrwydd arbennig i faterion yn ymwneud â chefn gwlad trwy nifer sylweddol o ymweliadau â'r cartref a thrwy gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r rhai a ddymunai hynny.

Roedd y YOT, drwy YPSMS yn cynnig ymyriadau cynnil, gan gynnwys grwpiau iechyd rhyw i enethod a merched ifanc. Er hynny nid oedd cynllun amrywio na chanllawiau arfer. Felly nid oedd yn glir pa wasanaethau a allai fod ar gael i blentyn neu berson ifanc o gefndir lleiafrifol ethnig neu i blentyn neu berson ifanc oedd yn anabl.

Roedd staff YOT yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth glir o egwyddorion arferion gwaith effeithiol trwy drafodaethau a thrwy eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Roedd lefel uchel o gydlynu rhwng y gweithiwr achos ac eraill oedd yn darparu ymyriadau i'r plant a'r bobl ifanc yn ogystal â gwaith i'w symbylu ac i ategu'r gwaith a wnaed mewn 94% a 78% o achosion. Roedd cyswllt agos rhwng ymyriadau a gynlluniwyd ac asesu risg o niwed i eraill mewn 70% o achosion a gâi sylw gan ymyriadau priodol mewn 75%.

Roedd peth tystiolaeth o dargedu ymyriadau yn y meysydd hynny o anghenion wedi'u hasesu. Er hynny, yn hanner yr achosion a ddarllenwyd nid oedd y cynlluniau wedi'u dilyn ac nid oedd cofnod yn y ffeil achos i egluro hyn. Dim ond 68% o gynlluniau goruchwylio cychwynnol oedd wedi'u hadolygu yn unol â gofynion y safon genedlaethol.

Roedd swm sylweddol o waith partneriaeth a phrosiect wedi'i wneud gyda phlant a phobl ifanc yn ymwneud â'r YOT. Er bod elfennau canmoladwy o ran gweithio ar y cyd, canfuwyd hefyd feysydd o bryder mewn perthynas ag asesu, rheoli a chofnodi risg. Roedd yn anodd gweld sut roedd y gwaith a wnaed gyda'r plant a'r bobl ifanc yn cael ei gydlynu, ei fonitro neu ei werthuso. Adlewyrchwyd hyn i raddau yn y diffyg o amcanion SMART mewn cynlluniau goruchwylio ac fel a ddywedwyd eisoes, yn y diffyg i gofnodi symud oddi wrth y cynlluniau goruchwylio gwreiddiol. Roedd hyn i'w weld fel pe bai'n arwain at broses ad hoc o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwahanol raglenni ar yr un pryd.

Nid oedd canllawiau'r Swyddfa Gartref/ Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi'u mabwysiadu yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac o ganlyniad nid oedd Heddlu Gogledd Cymru'n cyhoeddi rhybuddion terfynol yn gyson. Ymddengys mai arwynebol oedd y trefniant o hysbysu'r YOT o ran cyhoeddi rhybudd terfynol a rhoi manylion am y dioddefwr. Roedd y trefniant yn aml yn methu ac ni châi'r YOT ei hysbysu neu câi ei hysbysu'n hwyr. Dywedwyd wrthym am achosion o gyhoeddi cerydd neu rybuddion terfynol sawl gwaith neu hyd yn oed rybuddion. Hefyd bu achosion, ar gais y llys, Pan oedd

rhybuddion terfynol wedi'u rhoi yn y llys gan swyddog heddlu'r YOT yn hytrach na gan y swyddog priodol yng ngorsaf yr heddlu.

Roedd staff yr heddlu'n ymwneud â chyhoeddi rhybuddion terfynol yn ddiweddar wedi cael hyfforddiant mewn cyfiawnder adferol ac roedd disgwyl y byddai hyn yn arwain at newid mewn arferion gwaith. Roedd nifer y plant a'r bobl ifanc a fu ynghlwm â hyn ac a aseswyd gan swyddogion heddlu'r YOT yn ymddangos yn dda ac roedd ymyriadau'n ddychmygus.

Roedd cyfarfodydd panel gorchmynion cyfeirio'n cael eu cynnal o fewn yr 20 diwrnod gwaith gofynnol mewn 77% o achosion, tra bod y contractau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd yn cael eu gweithredu ym mhob achos. Er hynny, roedd presenoldeb dioddefwyr mewn paneli ac roedd gwneud iawn naill ai'n uniongyrchol neu anuniongyrchol i ddioddefwyr yn isel.

Daeth yr ISSP ar gael i'r YOT yn Hydref 2003. Rhannwyd y rhaglen rhwng pedwar neu bum YOT yng Ngogledd Cymru. Er mai dyddiau cynnar yw hi o ran gweithredu'r rhaglen, mae'r cynllun wedi dechrau cyfrannu i'r gwahanol wasanaethau sydd ar gael i'r llysoedd ac i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Nid yw ei gyfraniad i elfen gymunedol goruchwyliaeth DTO eto wedi'i ddatblygu. Rydym yn deall bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

Roedd y gwaith ailsefydlu gyda phlant a phobl ifanc dan DTO yn gymeradwy. Roedd gweithiwr arbenigol yn gyfrifol am yr holl waith DTO o ddedfrydu hyd at ddiwedd y gorchymyn. Roedd y gweithiwr yn mynychu pob cyfarfod ynglŷn â chynllunio goruchwyliaeth ac adolygu, yn aml gan fynd â rhieni/gofalwyr gyda hwy i'r cyfarfodydd hyn gan chwarae rhan weithgar ynddynt. Roeddynt hefyd yn ymweld yn rheolaidd â'r plant neu'r bobl ifanc rhwng adolygiadau. Roedd gwaith yn dechrau gyda'r plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa, ac yn cael ei ddilyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau ym mhob achos.

Arfer da

Roedd gweithiwr arbenigol yn gyfrifol am yr hol waith DTO o ddedfrydu hyd at ddiwedd y gorchymyn. Roedd y gweithiwr arbenigol yn mynychu pob cyfarfod ynglŷn â chynllunio goruchwyliaeth ac adolygu.

Roedd gorfodaeth yn un o gryfderau'r YOT's, roedd 93% o apwyntiadau a gynigiwyd yn cydymffurfio gyda gofynion safonau cenedlaethol a chedwid at 84% o'r apwyntiadau hyn. Pan na chedwid apwyntiadau, aseswyd a oedd yr absenoldebau yn dderbyniol neu'n annerbyniol yn 81% o'r achosion gan weithredu ynglŷn â thorri amodau neu alw'n ôl yn 92% o'r achosion. Roedd y rhain yn ganlyniadau rhagorol.

Arfer da

Roedd y YOT wedi sicrhau cyllid er mwyn penodi gweithiwr rhan amser i weithio gyda rhai 16 oed neu fwy gan fod diffyg darpariaethau ETE ar gyfer y grŵp o'r oedran hwn. Roedd y gweithiwr yn cynnig gwasanaeth mentora a hyfforddiant priodol arall.

Cryfderau:

- Roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc dan DTOs yn cael sylw wrth iddynt gael eu rhyddhau ym mhob achos.

- Roedd gorchmynion yn cael eu gorfodi'n briodol yn unol â safonau cenedlaethol.
- Roedd cyfleon ETE o ansawdd da.
- Roedd y YOT yn cydlynu'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.
- Roedd gwahanol ddarpariaethau mewn ymateb i anghenion criminogenig.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Roedd ychydig iawn o waith yn sgil trosedd na darpariaeth o ran gwaith grŵp.
- Nid oedd Heddlu Gogledd Cymru'n cyhoeddi rhybuddion terfynol yn unol â chanllawiau perthnasol.
- Nid oedd ISSP ar gael i'r plant a'r bobl ifanc hynny oedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod rhan gymunedol o'u goruchwyliaeth DTO.
- Nid oedd yr ymyriadau a ddatblygwyd yn mynd i'r afael yn llawn â'r anghenion amrywiol o fewn y gymuned leol.
- Nid oedd cynlluniau goruchwylio'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gydlynu ac adolygu'r gwaith a wnaed â phlant a phobl ifanc.

Arfer da

Yn ystod rhaglenni rhybuddion terfynol, roedd plant a phobl ifanc oedd wedi'u hadnabod fel unigolion mewn risg bellach o droseddu'n cael eu targedu gan gynnig ymyriadau am hyd at chwe mis. O blith y 70 o blant a phobl ifanc a dargedwyd pedwar yn unig oedd wedi aildroseddu.

3.3 Deilliannau o ran gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod y maes yn dangos lleihad o ran aildroseddu ar gyfer yr holl gosbau (cyn-llys, haen gyntaf, cosbau cymunedol a bod yn y ddalfa)*
- *Bod ASSETs yn dangos lleihad mewn ffactorau risg ar y diwedd.*
- *Bod adroddiadau perthnasol am ddeilliannau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill yn dangos deilliannau cadarnhaol.*
- *Bod amcanion cynllun goruchwylio wedi'u cwrdd mewn meysydd i angen sydd wedi'i asesu.*

Roedd sgôr ASSET yn dangos gwelliant mewn 40% o'r achosion a archwiliwyd. Yn fwy penodol, roedd y ffeiliau'n nodi bod:

30% o'r plant a'r bobl ifanc yn ailroseddu yn ystod eu gorchmynion

69% yn cydymffurfio gyda'r gorchmynion

59% yn dangos newid cadarnhaol yn eu hagwedd, cred a'u hymddygiad

46% yn dangos gwell ymwybyddiaeth o effaith eu hymddygiad ar ddioddefwyr

45% yn dangos gwelliant yn y cyswllt gyda'r gymuned ac amgylchiadau cymdeithasol

63% yn defnyddio'r hyn roeddent wedi'i ddysgu a'r sgiliau yr oeddent wedi'u datblygu yn ystod ymyriadau YOT

Buom yn cyfweld nifer o blant a phobl ifanc oedd yn canmol gwaith yr YOT yn fawr. Roeddent i gyd wedi cael help gyda ffactorau criminogenig yn eu bywydau, gydag enghreifftiau o feysydd yn cynnwys cymorth gydag addysg, camddefnyddio sylweddau, a pherthynas deuluol. Roedd un unigolyn, gan ategu'r asesiad a wnaed gan arolygwyr yn dilyn darllen ffeil achos, yn siomedig nad oedd neb wedi siarad gydag ef am ei drosedd. Hefyd nid yw plant a phobl ifanc yn ymwybodol o sut i wneud cŵyn.

Cafodd saith o rieni/gofalwyr eu cyfweld ac roedd y rhan fwyaf yn canmol y YOT a'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn. Roeddent o'r farn bod gweithiwr y YOT yn gefnogol a bod yr ymyriadau a gynigiwyd i blant a phobl ifanc yn gymorth. Mynegodd un rhiant/gofalwr beth pryder ynghylch y teimlad o ddiffyg trefn yn ystod cyfnod cychwynnol yr ISSP. Er hynny, roeddent hefyd yn dymuno i wasanaethau YOT fod ar gael dros y penwythnos.

Cryfderau:

- Roedd adolygiadau ASSETs yn cael eu cwblhau ac roeddent yn dangos newidiadau cadarnhaol yn agwedd ac ymddygiad plant a phobl ifanc.
- Roedd rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc yn gadarnhaol am eu profiad gyda'r YOT.
- Roedd canran sylweddol o blant a phobl ifanc wedi dysgu sgiliau defnyddiol yr oeddynt yn gallu eu defnyddio.

Maes sydd angen ei wella:

- Nid oedd y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o'r weithdrefn gwyno.

ASESIAD CYFFREDINOL AM Y GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn foddhaol.

4. GWEITHIO GYDA RHIENI/GOFALWYR

4.1 Asesu anghenion rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod asesiad o sgiliau magu plant gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn risg o droseddu wedi'i wneud ac yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at unrhyw ymyriadau.*

Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw broses strwythuredig ar gyfer adnabod a chyfeirio rhieni/gofalwyr i'r gweithiwr yn arbenigo mewn sgiliau magu plant. Roedd cyfeiriadau gan amlaf yn cael eu hysgogi yn dilyn sgyrsiau anffurfiol rhwng y gweithiwr a chydweithwyr a byddai ffurflen gyfeirio'n cael ei chwblhau yn dilyn hynny. Roedd asesiad yn cynnwys ymweliad â'r rhieni/gofalwyr pryd byddai eu hanghenion a'u potensial o ran cyfrannu at y grŵp yn cael ei archwilio ynghyd â thrafodaeth ynghylch unrhyw ofnau o fod yn ymwneud â'r grŵp.

Roedd cynnwys rhieni/gofalwyr yn y cyfnod cychwynnol hwn yn cael ei ystyried fel ffactor oedd yn cyfrannu at ymwneud llwyddiannus gyda grŵp yn y dyfodol a hefyd câi effaith gadarnhaol ar y gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Pan nad oedd rhaglen grŵp yn cael ei hystyried yn addas, roedd y rhieni/gofalwyr yn cael cynnig gwaith unigol.

Yn 74% o'r achosion a ddarllenwyd gennym, roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc wedi cynnwys ailadeiladu neu gynnal perthynas gyda'u teuluoedd. Roedd rhan sylweddol o'r gwaith hwn wedi'i wneud yn ystod ymweliadau â chartref y plentyn neu'r person ifanc.

Cryfderau:

- Roedd rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan yn sensitif a gofynnwyd am eu caniatâd cytbwys.
- Roedd rhieni/gofalwyr yn cael dewis rhwng gwaith grŵp a gwaith unigol.

Maes sydd angen ei wella:

- Nid oedd unrhyw broses gyfeirio briodol yn seiliedig ar set o feini prawf ac asesiad strwythuredig.

4.2 Ymyriadau gyda rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod ymyriadau ar gael ac y manteisir arnynt gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd naill ai'n troseddu neu mewn risg o droseddu yn unol ag angen sydd wedi'i asesu.*
- *Bod ymyriadau magu plant yn cael eu darparu sy'n briodol i gefndir, diwylliant, ethnigrwydd, anghenion ieithyddol, lefelau llythrennedd a rhyw rieni/gofalwyr.*

Roedd darpariaethau magu plant o fewn YOT wedi'u cynnig ers tair blynedd ac roedd rhaglenni gwaith grŵp, wedi'u trefnu a'u cynnal ar y cyd â NCH Cymru wedi bod ar gael ers blwyddyn. Hyd yma roedd tri grŵp magu plant wedi'u cynnal, gan gynnwys 30 o rieni/gofalwyr. Roedd pymtheg wedi cwblhau'r rhaglen, ac roedd chwech yn mynychu grŵp yn ystod cyfnod yr archwiliad. Roedd y YOT yn manteisio ar wahanol adnoddau a ddarperid gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys CD-ROMS a ffynonellau ymchwilio eraill.

Roedd y rhaglen a defnyddid gan YOT Conwy-Sir Ddinbych wedi'i mabwysiadu gan YOT arall a'i haddasu i gwrdd ag anghenion lleol. Roedd yn cynnwys sesiynau ar fagu plant o safbwynt rhiant sengl neu fagu llysblant, teuluoedd a ailsefydlwyd a hunan-barch. Cynhaliwyd y rhaglen am ddeg wythnos gydag wythnos ychwanegol ar gyfer unrhyw sesiynau a gollwyd oherwydd salwch, gwyliau neu ymrwymiadau eraill. Ni lwyddodd bob un a gymerodd ran i gwblhau'r rhaglen gyfan, ond roedd y ffaith honno'n cael ei hystyried mewn dull ffafriol gan y gweithiwr YOT yn y gred bod rhai'n absennol oherwydd eu bod cael swyddi yn sgil yr hunan-barch yr oeddynt wedi'i ddatblygu'n ddiweddar. Nid oedd unrhyw broses werthuso strwythuredig yn perthyn i'r rhaglen a'r unig fodd o fesur effaith oedd drwy roi holiadur i rieni/gofalwyr ei gwblhau. Er hynny roedd yr angen am werthuso annibynnol wedi'i adnabod gan y YOT a'r bwriad oedd negydu gyda phrifysgolion lleol i wneud y gwaith hwn. Roedd bwriad hefyd i'r gwaith o werthuso ganolbwyntio ar y cyswllt rhwng yr ymddygiad tramgwyddus a phrun ai oedd unrhyw un o blant y rhieni/gofalwyr hyn wedi'u cymryd i ofal yr awdurdod lleol.

Cynigwyd ymyriadau magu plant eraill yn yr ardal. Câi un ei redeg gan NCH Cymru. Roedd rhaglen ar gyfer rhieni plant yn eu harddegau y gallai'r YOT gyfeirio ati.

Roedd cludiant ar gael, pe bai angen, i rieni/gofalwyr mewn ardaloedd gwledig oedd yn mynychu'r rhaglenni, ac roedd gwasanaeth dwyieithog hefyd ar gael gan staff y grŵp. Roedd rhannau o'r ardal yn denu nifer sylweddol o bobl o ardaloedd cyfagos ac yn arbennig gogledd Lloegr. Er iddo gael ei nodi bod y rhaglen magu plant a ddefnyddid yn cael ei chydnabod fel un gwrth-ormesol, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ganllawiau ynghylch arferion gwaith na darpariaethau penodol ar gyfer gweithio gyda'r rhieni/gofalwyr a YOT's perthnasol ymhlith grŵp y plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Roedd diffyg darpariaeth debyg ar gyfer rhieni/gofalwyr o grwpiau ethnig eraill.

Yn y ffeil a ddarllenwyd gan arolygwyr, canfuwyd bod 75% o rieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o asesu eu plant eu hunain a bod 92% naill ai'n chwarae rhan yn ystod y broses oruchwylio neu yr ymgynghorid â hwy. Roedd ymwneud rhieni/gofalwyr yn cael ei amlygu'n arbennig mewn achosion DTO lle'r oedd gweithiwr achos yn cynnwys rhieni/gofalwyr yn y gwaith o gynllunio dedfryd, adolygiadau ac yn ystod pob cam o ddedfryd y plentyn neu berson ifanc.

Cryfderau:

- Roedd ymyriadau'n seiliedig ar ganllawiau ynghylch arferion gwaith effeithiol.
- Roedd cysylltiadau cryf rhwng aelodau'r tîm a rhaglenni eraill yn lleol a chenedlaethol.
- Roedd darpariaethau o ran magu plant yn cael eu cynnig ac roedd rhieni/gofalwyr yn manteisio arnynt.
- Roedd cymorth ar gael i rieni/gofalwyr os oeddent angen cludiant ac roedd gwasanaeth dwyieithog ar gael.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd ystadegau ar gyfeiriadau, y nifer a fanteisiai ar gyfleon a gorffen y dasg yn cael eu cynnal.
- Nid oedd natur newidiol y boblogaeth wedi cael ei ystyried nac anghenion rhieni/gofalwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

4.3 Deilliannau o ran rhieni/gofalwyr of plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod deilliannau boddhaol yn sgil ymyriadau ar gyfer rhieni/gofalwyr.*

Yn ystod yr archwiliad cafodd saith o rieni/gofalwyr eu cyfweld gan arolygwyr ac er nad oeddynt i gyd yn fodlon gyda phob agwedd o'u hymwneud â'r YOT, roeddent ar y cyfan yn gadarnhaol iawn o ran y gwasanaeth yr oeddent hwy a'u plant wedi'i dderbyn. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

'Mae wedi bod yn help i mi gan fy mod i'n aros nes ei fod yn tawelu cyn i mi fynd i'r afael â materion ac rwy'n ceisio peidio dweud y drefn. Mae wedi fy ngwneud i'n fwy ymwybodol o'r rôl o fod yn fam ac mae wedi fy helpu yn fy mherthynas gyda fy chwe phlentyn arall.'

Arfer da

Roedd y gweithiwr DTO yn mynd â rhieni/gofalwyr i gyfarfodydd cynllunio dedfryd ac adolygu. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol gan nad oedd unrhyw Sefydliad Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a chan fod plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli bellteroedd maith o fro eu mebyd.

Cryfderau:

- Roedd rhieni/gofalwyr yn dysgu sgiliau magu plant defnyddiol yr oeddent yn gallu eu defnyddio yn eu perthynas â phlant eraill o fewn y teulu.
- Roedd rhieni/gofalwyr yn fodlon gyda'r rhaglen magu plant a chyda'r ffordd roeddent yn rhan o oruchwyliaeth eu plant.
- Roedd y YOT wedi paratoi taflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr.

Maes sydd angen ei wella:

- Roedd angen gwerthuso rhaglenni grŵp a rhaglenni unigol.

Arfer da

Sylw gan rieni/gofalwyr: 'Maent wedi newid fy mywyd. Rwy'n amau y byddai wedi marw neu fynd i'r carchar oni bai am eu cyfraniad nhw – mae'n yfed llai ac mae'n dilyn rhaglen addysg.'

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH GYDA RHIENI/GOFALWYR

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn foddhaol.

5. GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR

5.1 Asesu anghenion y rhai sy'n dioddef yn sgil plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Dylai asesiad o anghenion dioddefwyr gael ei wneud a'i ddefnyddio i gyfrannu at ymyriadau a gynlluniwyd.*
- *Rhoddir cyfle i'r holl ddioddefwyr wneud penderfyniadau cytbwys am eu rhan mewn achosion o blant a phobl ifanc sy'n troseddu a'u bod yn cael cefnogaeth yn hynny o beth.*

Roedd YOT wedi contractio'i waith gyda dioddefwyr i Cynnal Dioddefwyr ac roedd cytundeb lefel gwasanaeth a gwaith.

Y trefniant rhwng y ddau gorff oedd bod dau weithiwr Cynnal Dioddefwyr yn mynychu swyddfa'r YOT ddwywaith yr wythnos i gasglu manylion ysgrifenedig am rai wedi'u cyfeirio, ond mewn gwirionedd roedd peth o'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo dros y ffôn neu drwy anfon ffacs. Os byddai Cynnal Dioddefwyr eisoes yn gyfarwydd â'r dioddefwr yna byddent yn ymweld â'r unigolyn yn ei gartref. Pe na bai'n gyfarwydd â'r dioddefwr, yna byddai'r cyfeiriad yn cael ei ddychwelyd er mwyn i swyddog heddlu y YOT gael caniatâd y dioddefwr i gysylltu ag ef, oherwydd dim ond i swyddogion heddlu YOT y gall Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu manylion y dioddefwr. Mae'n ymddangos nad yw'r atborth i Cynnal Dioddefwyr yn dilyn y broses o ailgyfeirio i swyddogion heddlu YOT bob amser yn digwydd ac felly mae canran uchel o ddioddefwyr na chysylltir â hwy.

Roedd cyfeiriadau i Cynnal Dioddefwyr yn digwydd ar ôl dedfrydu, ac o ganlyniad roedd diffyg persbectif dioddefwyr yn y PSRs.

Cryfder:

- Roedd trefniadau wedi'u gwneud i fwrw ymlaen â gwaith gyda dioddefwyr.

Maes sydd angen ei wella:

- Nid oedd y prosesau cyfeirio a chyswllt yn gweithio'n briodol.

5.2 Ymyriadau gyda dioddefwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod gan ddioddefwyr naill ai fynediad i gefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan y YOT neu eu bod yn cael eu hysbysu o ddarparwyr gwasanaeth perthnasol.*
- *Cynnig i ddioddefwyr y cyfle i nodi unrhyw elfen adferol yng nghynllun goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc a chael eu hysbysu o'u cynnydd.*
- *Bod ymyriadau gyda dioddefwyr ar gael sy'n briodol i'w hoedran, sefyllfa ddiamddiffyn, ethnigrwydd, anghenion ieithyddol, lefelau llythrennedd a rhyw.*

Dim ond 38% o ddioddefwyr o'r sampl achos a ymgynghorwyd â hwy neu a wahoddwyd i gymryd rhan mewn gwaith cyfiawnder adferol gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi troseddu ac ymgynghorwyd â 35% ynghylch gwaith arall a wnaed gyda neu gan y rhai oedd wedi troseddu. Adroddwyd wrthym am beth gwaith ataliol da yn sgil cyswllt gyda dioddefwyr corfforaethol yr oedd y cyswllt â hwy yn uwch.

Roedd y YOT mewn partneriaeth â NCH Cymru yn darparu gwahanol brosiectau iawn anuniongyrchol yr oedd y gymuned yn elwa ohonynt ac a oedd yn datblygu sgiliau a hyder plant a phobl ifanc. Er hynny, mae'n ymddangos nad oedd cais gan ddioddefwr am weithgaredd iawn neilltuol yn aml yn cael ei gyflawni, yn ôl gweithwyr YOT, roedd dioddefwyr yn aml am gosbi'r troseddwr yn hytrach nac ymwneud â chyfiawnder adferol. Yn wir cadarnhawyd hyn gan un dioddefwr y buom yn ei gyfweld a gredai fod y prosiect iawn ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc yn fwy o wobr nac o gosb am ei drosedd. Roedd yn amlwg i ni nad oedd dioddefwyr yn ymwybodol o rôl a chyfrifoldeb YOT, y prosesau y'i gwahoddid i ymwneud â hwy, diben neu resymau eu hymwneud â'r manteision posibl yn sgil ymwneud â phrosesau adferol.

Cryfder:

- Roedd nifer o wahanol brosiectau iawn ar gael yr oedd y gymuned yn elwa ohonynt.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Dylid cynnal arolygon dioddefwyr yn rheolaidd mewn modd trefnus.
- Ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth oedd gan ddioddefwyr o'r broses yr oedd cais iddynt ymwneud â hi ac roedd rhai wrth reswm yn amharod i gymryd rhan.
- Nid oedd digon o ymdrech wedi'i wneud i gysylltu â dioddefwyr ac i'w hysbysu o waith YOT's a phroses cyfiawnder adferol.

5.3 Deilliannau ar gyfer y rhai sy'n dioddef y sgil plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod dioddefwyr yn fodlon gyda'r gwaith a wneir gan y YOT.*

Roedd cyfranogiad dioddefwyr mewn cyfarfodydd panel gorchymyn cyfeirio yn anfynych, roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn gwrthod neu'n gofyn i Cynnal Dioddefwyr fynychu ar eu rhan. Roedd rhai o'r dioddefwyr a fynychodd gyfarfodydd paneli yn teimlo bod y cyfarfodydd o blaid y plentyn neu'r person ifanc ac nad oedd digon o gyfle iddynt rannu eu profiad a mynegi eu barn. Roedd rhai'n teimlo na roddwyd sylw i ymddygiad amhriodol y plentyn neu berson ifanc yn ystod cyfarfod y panel. Roedd eraill, er eu bod yn rhannu rhai o'r sylwadau a fynegir uchod, hefyd yn teimlo eu bod wedi'u trin gyda pharch gan aelodau'r panel a'i bod mynychu cyfarfod yn werthfawr.

Roedd nifer o'r dioddefwyr wedi gofyn am atborth ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc, ond prin oedd hyn yn digwydd. Yr eglurhad a roddwyd oedd nad oedd prosesau adolygu yn eu lle er mwyn gallu rhoi atborth i ddioddefwyr.

Er bod 82.9% o ddioddefwyr yn fodlon yn ôl Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, ni lwyddwyd i ganfod unrhyw fath o adolygiadau ffurfiol na holiaduron a anfonwyd i ddioddefwyr. Yn wir nid oedd y dioddefwyr a gafodd eu cyfweld yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r YOT i ddioddefwyr ac nid oeddent yn gwybod bod y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan Cynnal Dioddefwyr, ar ran YOT, neu ar y cyd â hwy.

Cryfderau:

- Roedd rhai dioddefwyr wedi cael profiad cadarnhaol o gyfarfodydd paneli gorchymyn cyfeirio.
- Roedd y YOT wedi paratoi taflen wybodaeth ar gyfer dioddefwyr.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Prin yr oedd y YOT wedi hyrwyddo ei hun i'r gymuned leol ac i ddioddefwyr yn arbennig gan ddefnyddio'r daflen wybodaeth.
- Disgrifiwyd y profiad o fod mewn cyfarfodydd panel gorchymyn cyfeirio gan nifer o ddioddefwyr fel profiad negyddol.
- Dylid adolygu'r cytundeb gyda Cynnal Dioddefwyr er mwyn bod yn glir ynghylch y rolau rhwng y ddau barti.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH GYDA DIODDEFWYR

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn rhannol.

Archwiliad ar y cyd o YOTs

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei fod yn sefydlu archwiliad annibynnol o YOTs yn Rhagfyr 2002. Mae'r rhaglen archwilio i'w chynnal ar y cyd rhwng y Comisiwn Archwilio, Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol, Estyn, Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Swyddfa Safonau mewn Addysg, ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r archwiliad ar y cyd wedi'i leoli o fewn Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ac fe'i cyllidir gan y Swyddfa Gartref.

Amcanion y Swyddfa Gartref

Mae'r archwiliad ar y cyd yn cyfrannu'n bennaf tuag at gyflawni Amcanion 3 a 4 y Swyddfa Gartref i:

- 'sicrhau y darperir yn effeithiol gyfiawnder, gan osgoi unrhyw oedi diangen, drwy archwilio, ganfod, erlyn a gweithdrefnau llys effeithiol. I leihau'r bygythiad a'r ofn i ddioddefwyr ac i ymwneud â dioddefwyr a'u cefnogi'
- 'ddarparu dedfrydau o garchar a dedfrydau cymunedol effeithiol er mwyn lleihau aildroseddu ac i amddiffyn y cyhoedd, drwy wasanaethau'r carchar a'r gwasanaeth prawf, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid'.

Diben yr archwiliad ar y cyd yw adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a, thrwyddo, i'r Senedd a'r cyhoedd, ar effeithiolrwydd YOTs o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol i atal troseddu gan blant a phobl ifanc, a thrwy hynny amddiffyn y cyhoedd, gan ddiogelu eu hawliau a hybu eu lles yr un pryd.

Amcanion y rhaglen yw:

- asesu'r effaith a wneir gan YOTs a chyrff partner ar atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy oruchwylio effeithiol
- gwerthuso'r gwaith a wneir gan YOTs a chyrff partner i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc mewn risg o droseddu a'u galluogi i fyw bywydau adeiladol sy'n parchu'r gyfraith
- gwerthuso rôl YOT's o ran diogelu hawliau a hybu lles plant a phobl ifanc
- asesu i ba raddau y mae'r YOTs yn cwrdd â gofynion y targedau angenrheidiol a osodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- hybu arfer da o ran trefniadau rheoli YOT's a darparu gwasanaeth i'r llysoedd a'r gymuned
- adnabod tan berfformio a gwneud argymhellion i hybu gwelliannau
- gwerthuso'r defnydd effeithiol o adnoddau

- hybu'n weithgar gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth fel rhan annatod o'r broses archwilio
- paratoi adroddiadau amserol sy'n cyfrannu at wella perfformiad trwy ychwanegu at bolisi ac arfer.

Côd Ymarfer

Bydd pob archwiliad yn:

- cael ei gynnal gyda gonestrwydd mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais
- fodd i ddatblygu barn annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth
- ceisio symbylu ac ymwneud â staff
- hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth drwy ei brosesau
- yn cael ei gwblhau trwy gyhoeddi adroddiad amserol yn cynnwys casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwella.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar archwiliad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn cyfrifoldeb y rhaglen archwilio ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ

Trefniadau'r archwiliad

- Dechreuodd y rhaglen archwilio ar y cyd ym Medi 2003, yn dilyn dau archwiliad peilot. Mae'r 155 o YOTs yn Lloegr a Chymru i gael eu harchwilio dros gylch o bump i chwe blynedd. Gan fod hon yn rhaglen archwilio hir, penderfynwyd ei rhannu'n dri chyfnod er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol a'i bod yn parhau i ystyried pryderon lleol a chenedlaethol. Y tri chyfnod yw:
  - **O Fedi 2003 i Orffennaf 2004**, pan fydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar brif faterion, gyda phwyslais ar sefydlu meincnodau a lledaenu arfer da. Gofynnir i YOT's wirfoddoli ar gyfer y cyfnod hwn o'r broses
  - **Hyd at Fedi 2006**, yn ystod pryd y bydd archwiliadau'n cael eu teilwra'n unigol i bob YOT, yn seiliedig ar archwilio'r data ar gael a'r casgliadau o raglenni archwilio eraill
  - **O Fedi 2006 ymlaen**, pan fydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnir yn erbyn targedau, yn arbennig o ran cynyddu perfformiad cyffredinol a sicrhau cysondeb o ran arferion.
- Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal archwiliadau cymesur a chydlynol mewn llywodraeth leol, sy'n elwa o ganlyniadau Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly rydym wedi datblygu rhaglen fydd:
  - yn gymesur i risg ac yn archwilio'n unig y meysydd hynny o waith lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arfer da
  - yn ategu, ac yn cydlynu â rhaglenni archwilio eraill, gan gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd yn cael eu datblygu yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, *Every Child Matters* (2003)
  - yn cymryd i ystyriaeth ddatblygiad diweddar YOT's fel cyrff.
- Mae safonau a meini prawf cynhwysfawr wedi'i datblygu i gynnwys y cyfnod cyntaf o'r archwiliad, yn canolbwyntio ar:
  - **drefniadau rheoli a phartneriaeth**
  - **plant a phobl ifanc a ystyrir o fod mewn risg o droseddu**
  - **plant a phobl ifanc sy'n troseddu**
  - **rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd mewn risg o droseddu neu sy'n troseddu**
  - **dioddefwyr.**
- Bydd pob ymweliad safle yn ystod y cyfnod cyntaf yn digwydd dros gyfnod o bythefnos, dwy neu dair wythnos ar wahân. Byddwn yn gofyn i YOT adnabod sampl gynrychioliadol ystadegol ar hap o rhwng 50 a 120 o blant a phobl ifanc (yn dibynnu ar y llwyth gwaith) sydd wedi bod yn agored i ryw ffurf o ymyrraeth yn y misoedd blaenorol. Bydd yr achosion yn cynnwys y rhan fwyaf o orchmynion, yn cynnwys trwyddedau.

- Yn ystod yr wythnos gyntaf o'r ymweliad safle, byddwn yn archwilio'r holl ffeiliau achos hyn yn fanwl. Byddwn hefyd yn achos hanner yr achosion a ddetholwyd, yn cynnal cyfweliadau manwl gyda'r rheolwr achos, ac unrhyw unigolyn sydd wedi ymwneud yn sylweddol mewn darparu ymyriadau a lle bo'n bosib, gyda'r plentyn neu'r person ifanc ei hun a'i rieni/gofalwyr. Lle bo hynny'n briodol, byddwn hefyd yn gobeithio cwrdd a chlywed gan y rhai sydd wedi dioddef yn sgil troseddu gan blant a phobl ifanc a oruchwylir gan y YOT.
- Er mwyn hybu hunan-asesu a chynyddu perchnogaeth casgliadau'r archwiliad, byddwn yn gwahodd YOT's i secondio aelod o'u staff, fel arfer ymarferydd profiadol, i'r tîm archwilio am gyfnod yr wythnos o ddarllen ffeiliau. Rydym yn credu bod hyn yn gallu bod yn ffordd gadarnhaol o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac mae'n helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr archwiliad a'r arferion.
- Bydd yr ail wythnos o'r archwiliad yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr, aelodau'r Bwrdd Rheoli, rheolwr a staff YOT. Bydd yn cynnwys y rheolaeth o'r YOT, ei berfformiad a'r cyfraniad a wneir gan ei gyrff partner. Bydd y casgliadau a wnaed yn sgil archwilio ffeiliau achos yn ystod wythnos gyntaf yr archwiliad yn cyfrannu at y trafodaethau.
- Bydd casgliadau'r archwiliad yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr argymhellion hyn cael eu cynllunio i hybu'r YOT yn ei waith, i gefnogi'r arfer da ac i hybu gwelliannau.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref, fel yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, gyda chopïau yr un pryd i'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd a lle bo'n briodol, i'r Gweinidogion Addysg a Dysgu Gydol oes, Cyllid, Llywodraeth leol a Chymunedau a Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd copïau ar gael hefyd i'r wasg ac ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn:

  http://www.homeoffice.gov.uk/justice/probation/inspprob

Gwnaed gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn yn 2003.

- Cychwynnodd yr wythnos o ddarllen ffeiliau 10 Tachwedd.
- Cychwynnodd yr ail wythnos 1 Rhagfyr.

Dull Sgorio

Mae pum adran yr archwiliad yn cael eu hasesu'n unigol yn erbyn safonau perthnasol, gan ddefnyddio meini prawf cefnogol. Bernir ar sail:

- gwybodaeth a ddarparwyd gan y YOT
- cyfweliadau gyda phrif swyddogion, rheolwyr a staff o'r YOT a chyrff partner eraill
- darllen ffeiliau achos
- trafodaethau gyda rheolwyr achos a phobl eraill sy'n ymwneud yn sylweddol yn y broses oruchwylio
- persbectif plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle bo'n bosibl, eu dioddefwyr.

Bernir fel a ganlyn:

- **Cwrdd yn llawn** – yn dynodi perfformiad eithriadol y tu hwnt i ofynion safonau cenedlaethol a chanllawiau perthnasol eraill
- **Cwrdd yn foddhaol** – perfformiad cryf ar y rhan fwyaf o'r eitemau ac o leiaf yn foddhaol o ran y gweddill, yn cwrdd â gofynion safonau cenedlaethol a chanllawiau perthnasol eraill
- **Cwrdd yn rhannol** – perfformiad llai na boddhaol ar y rhan fwyaf o eitemau
- **Heb eu cwrdd** – perfformiad annigonol ar y rhan fwyaf o eitemau.

Caniateir peth disgresiwn i arolygwyr sy'n arwain o ran addasu sgoriau os yw hyn yn briodol yn sgil casgliadau eraill neu dystiolaeth cyd-destunol.

Penderfynir ar yr asesiad cyffredinol ar sail yr hyn a fernir am adrannau unigol. Ni roddir unrhyw sgôr na gradd yn ystod y cyfnod cyntaf o'r broses archwilio, ond yn hytrach categoreiddir yn gyffredinol gan danlinellu unrhyw beth neilltuol sydd wedi'i gyflawni yn ogystal â meysydd ar gyfer gwella. Mae'r agwedd hon wedi'i mabwysiadu gan ein bod yn teimlo y byddai mecanwaith sgorio mwy caeth yn anaddas o ystyried natur ddatblygiadol gwaith y YOT's a'r ffaith mai yn gymharol ddiweddar y daeth y cyrff i fodolaeth.

Asesir perfformiad y YOT fel a ganlyn:

- **Cymeradwy** – mae perfformiad rheoli cryf a gwaith eithriadol gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, wedi'i gefnogi gan berfformiad boddhaol neu well mewn meysydd gwaith eraill
- **Da** – mae perfformiad boddhaol ar draws y pum adran
- **Boddhaol gyda sylfaen dda ar gyfer datblygu** – lle mae, o leiaf, y ddwy adran sy'n ymwneud â threfniadau rheoli a gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, yn cael eu hasesu ar sail cwrdd yn foddhaol, er efallai yr ystyrir bod eraill yn unig wedi'u cwrdd yn rhannol neu heb eu cwrdd
- **Anfoddhaol ag angen gwella** – er bod rhai adrannau wedi'u cwrdd yn foddhaol, mae naill ai'r adran ar drefniadau rheoli neu waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, wedi'i asesu - wedi'u cwrdd yn rhannol neu heb eu cwrdd
- **Gwella ag angen gwella sylweddol** – lle ystyrir nad yw'r adran ar drefniadau rheoli neu waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu wedi'i gwrdd yn foddhaol.

Camau nesaf

- Gofynnir i'r YOT anfon ymateb i'r argymhellion, i'r arolygwyr sy'n arwain, ynghyd â chynllun gweithredu o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad. Rhagwelir y bydd yr argymhellion gan amlaf yn cael sylw o fewn 12 mis o gyhoeddi er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer integreiddio o fewn datblygiadau presennol.
- Mae'r gwaith o weithredu'r argymhellion i'w fonitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Nid yw'r rhaglen archwilio ar y cyd gan amlaf yn cynnwys unrhyw gamau dilynol oni bai fod materion yn codi yn ystod cwrs y rhaglen sydd mor bryderus fel bod angen sylw ar unwaith. Nid oes pryderon o'r fath wedi'u hamlygu yn archwiliad Conwy-Sir Ddinbych.
- Yn ogystal â'r adroddiadau ar YOT's unigol, bydd y tîm archwilio ar cyd hefyd yn cyhoeddi adroddiadau o dri i dro ar gasgliadau ar draws nifer o dimau. Bydd adroddiadau o'r fath yn cynnwys sylwadau ar gydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth a gwybodaeth arall am dueddiadau. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys cymariaethau rhwng perfformiad YOTs gyda nodweddion tebyg.